**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 26 Ebrill 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | F M Gordon | S Joy |
| Y V Jardine | S Pritchard | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm Strategaeth Addysg |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Melissa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R V Smith - Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins a/ac L R Jones

---

## 43 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 44 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 fel cofnod cywir.

## 45 Arweinyddiaeth, Cynhwysiad a Llywodraethu: Datblygu Rhagoriaeth yn Ysgolion Abertawe.

Cyflwynodd Sarah Hughes adroddiad a oedd yn crynhoi ac yn amlinellu trosolwg o waith y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau ar gyfer 2022-23.

Cynhwyswyd a thrafodwyd y tri phrif destun canlynol yn ystod y flwyddyn:
- Cryfhau Arweinwyr Ysgolion
- Presenoldeb a Chynhwysiad
- Llywodraethu Ysgol Cryfach a Mwy Effeithiol

Amlinellwyd a manylwyd ar yr adroddiadau, cyflwyniadau a thystiolaeth amrywiol a ddarparwyd yn ystod cyfarfodydd niferus y PCC yn yr adroddiad.

Trafododd aelodau'r pwyllgor yr adroddiad a gofynnwyd cwestiynau a gwnaed sylwadau ynghylch y cynnwys.

Ymatebodd y Swyddog, y Cyfarwyddwr ac Aelod y Cabinet yn unol â'r materion a'r pwyntiau a godwyd, ac atebwyd y cwestiynau a godwyd ynghylch rhoi'r polisïau newydd ar waith.

Cynigodd aelodau'r ychwanegiadau canlynol at yr adroddiad:
2.11 - ychwanegu dolen gyfeirio at wybodaeth gaffael a chyngor ar-lein;
4.5 - ychwanegu sesiwn sefydlu 'yn yr ysgol' ar gyfer llywodraethwyr newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am eu cyfraniadau i'r pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi arwain at yr adroddiad sydd o flaen aelodau heddiw, a fydd bellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet unwaith caiff yr holl ddogfennau cysylltiedig eu cwblhau a phan fyddant ar gael.

**Penderfynwyd**

1. Cymeradwyo'r adroddiad drafft gyda'r 2 ychwanegiad a amlinellwyd uchod a'i gyfeirio at gyfarfod y Cabinet yn y dyfodol pan fydd y tair dogfen maes polisi'n barod.

2. Gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r mentrau datblygu polisi a amlinellwyd yn adran 5 yr adroddiad hwn.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.34 pm

**Cadeirydd**